HM Revenue & Customs

# Treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol

## Canllaw ar gyfer Aelodau Seneddol (ASau) a Gweinidogion

Gorffennaf 2024

# Cynnwys

Mae CThEF wedi paratoi'r canllaw hwn i roi cyngor i ASau a Gweinidogion am eich treth bersonol a'ch cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG).


**1 Manylion cyswllt ar gyfer eich ymholiadau treth bersonol**

**2 Hunanasesiad**

Y Ffurflen Dreth Hunanasesiad ar gyfer ASau a Gweinidogion

Gwybodaeth y bydd ei hangen arnoch er mwyn cofrestru ar gyfer cyflwyno ar-lein

Anfon Ffurflen Dreth bapur

Y cysylltiad â chyfraniadau Yswiriant Gwladol

**3 Buddiannau trethadwy o'ch swydd (treuliau drwy'r gyflogres)**

Treuliau wedi'u talu gan yr Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol (IPSA)

Treuliau llety

Costau staffio

Costau swyddfa

Taliadau wrth gefn

Treuliau a godwyd a lwfansau cyfalaf

**4 Cyfrifoldebau'r cyflogwr**

Eitemau eraill o ddiddordeb

Ffioedd

TAW

Ffioedd a gyfrannwyd at elusen

**5 Treth Enillion Cyfalaf ar fannau preswylio**

Eich man preswylio

A all mwy nag un man preswylio fod yn gymwys ar gyfer Rhyddhad Man Preswylio Preifat?

Rhyddhad ar gyfer pobl briod neu rywun mewn partneriaeth sifil

**6 Gohirio talu Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 ar fwy nag un gyflogaeth**

**7 Diweddariadau a briffiau digidol**

# 1 Manylion cyswllt ar gyfer eich ymholiadau treth bersonol



Adran Gyhoeddus 1 (PD1) Cyllid a Thollau EF (CThEF) sy'n delio â'ch holl ymholiadau treth bersonol a chyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Os ydych yn AS newydd, cysylltwch â PD1 er mwyn i ni adolygu'ch cod treth.

Nod PD1 yw rhoi atebion i ymholiadau dros y ffôn cyn pen tri diwrnod gwaith.

Os oes angen i chi ysgrifennu at PD1, ffoniwch ni ar gyfer y cyfeiriad cyswllt.

Ymunwch â'r miliynau o drethdalwyr sydd eisoes yn defnyddio'u Cyfrif Treth Personol i gael mynediad at ystod o wasanaethau CThEF. **Ychydig o funudau'n unig y mae'n eu cymryd i ddechrau arni – ewch i www.gov.uk/cyfrif-treth-personol**

## Rhifau ar gyfer ymholiadau ffôn

**03000 581 587** neu **03000 581 589**
**rhwng 8am a 6pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener**

## Aelodau sy'n cynrychioli etholaeth yng Nghymru a'r Alban

Os ydych yn cynrychioli'r Alban ar gyfer unrhyw ran o'r flwyddyn dreth, rydych yn drethdalwr yn yr Alban, waeth ble rydych yn byw.

O 6 Ebrill 2019 ymlaen, os ydych yn cynrychioli Cymru ar gyfer unrhyw ran o'r flwyddyn dreth, byddwch yn drethdalwr Cymreig, waeth ble rydych yn byw.

Os ydych yn dechrau neu'n rhoi'r gorau i gynrychioli etholaeth yng Nghymru neu'r Alban, i sicrhau bod eich statws fel trethdalwr wedi'i nodi'n gywir, cysylltwch â PD1 yn uniongyrchol.

# 2 Hunanasesiad

Mae'n rhaid i bob AS a oedd yn eistedd yn y Senedd ym mlwyddyn dreth 2023/24 neu'n gynharach lenwi Ffurflen Dreth Hunanasesiad.

Nid oes angen i'r rhan fwyaf o gyflogeion ddefnyddio Hunanasesiad i lenwi Ffurflenni Treth. Mae hyn oherwydd bod Talu Wrth Ennill (TWE) a systemau didynnu treth eraill yn casglu'r dreth sy'n ddyledus neu'n rhoi'r lwfansau a'r rhyddhadau cywir.

Fodd bynnag, bydd yn rhaid i bobl lenwi Ffurflen Dreth Hunanasesiad os yw'r canlynol yn berthnasol:

- mae ganddynt swydd benodol (megis yr hunangyflogedig, ymddiriedolwyr, ASau a Gweinidogion)
- mae ganddynt fath a/neu lefel benodol o incwm
- (er enghraifft, incwm o dramor neu incwm o eiddo sy'n £2,500 neu fwy)
- mae'u materion treth yn fwy cymhleth.

## Y Ffurflen Dreth Hunanasesiad ar gyfer ASau a Gweinidogion

Os bydd rhaid i chi lenwi Ffurflen Hunanasesiad ar gyfer blwyddyn dreth 2023/24, bydd PD1 eisoes wedi gwneud trefniadau Hunanasesiad ar eich cyfer ac wedi anfon eich Cyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR) atoch yn awtomatig.

O flwyddyn dreth 2024/25, ni fydd angen i chi gyflwyno Ffurflen Dreth Hunanasesiad oherwydd eich bod yn AS. Fodd bynnag, os ydych yn bodloni meini prawf eraill ar gyfer Hunanasesiad, bydd angen i chi gyflwyno Ffurflen Dreth o hyd.

Bydd newidiadau hefyd i ddyddiad cyflwyno'r Ffurflen Dreth bapur.

Byddwn yn darparu arweiniad pellach ar ddechrau 2025.

## Gwybodaeth y bydd ei hangen arnoch er mwyn cofrestru ar gyfer cyflwyno ar-lein

- Eich UTR
- Eich cod post neu'ch rhif Yswiriant Gwladol.

Gallwch ddod o hyd i'ch UTR ar unrhyw ohebiaeth oddi wrth CThEF. Os na allwch ddod o hyd iddo, gallwch gysylltu â PD1 ar **03000 581 587** neu **03000 581 589** gofyn iddo gael ei anfon i'ch cyfeiriad cartref (am resymau diogelwch, ni allwn roi'ch UTR i chi dros y ffôn). **Unwaith rydych wedi gwneud hyn, gallwch gofrestru yn www.online.hmrc.gov.uk**

Cofrestrwch mewn da bryd cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno, oherwydd y bydd yn rhaid i ni anfon cod cychwyn atoch. Mae hyn yn cymryd tua 7 diwrnod gwaith fel arfer. Mae'n rhaid i chi gychwyn eich cyfrif cyn pen 28 diwrnod o gael y cod cychwyn.

Fel AS, bydd yn rhaid i chi ddangos manylion eich incwm Seneddol ar eich Ffurflen Dreth Hunanasesiad. Os ydych yn llenwi'r Ffurflen Dreth ar-lein, bydd angen i chi lenwi'r dudalen 'Cyflogaeth'.

## Ffioedd pleidiau gwleidyddol

Ni ellir didynnu ffioedd pleidiau gwleidyddol ar eich Ffurflen Dreth Hunanasesiad, gan nad ydynt yn cael eu talu wrth gyflawni eich dyletswyddau fel AS.




**Os yw'r dreth sydd arnoch yn fwy na £3,000, neu os byddai'n well gennych dalu'n uniongyrchol am unrhyw dreth sy'n ddyledus o dan £3,000, bydd angen i chi wneud y taliad hwnnw erbyn 31 Ionawr.**

## Anfon Ffurflen Dreth bapur

Mae'n dal yn bosibl i chi anfon Ffurflen Dreth bapur at CThEF, os byddai hynny'n well gennych. Ar gyfer yr ASau hynny a oedd yn eistedd yn y Senedd ym mlwyddyn dreth 2023/24, y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno eich Ffurflen Dreth bapur fel AS yw 31 Ionawr 2025 yn hytrach na 31 Hydref 2024 (sef y dyddiad cau ar gyfer Ffurflenni Treth ar bapur i bob trethdalwr arall). Cyn belled â'n bod yn cael eich Ffurflen Dreth bapur erbyn 30 Rhagfyr 2024, gallwn gasglu'r dreth sydd arnoch - hyd at £3,000 - drwy gyfrwng eich cod treth TWE ar gyfer y flwyddyn ganlynol, pe dymunwch i ni wneud hynny.

Os na wnaethoch chi eistedd yn y Senedd flaenorol, y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno eich Ffurflen Dreth bapur fydd 31 Hydref 2024.

Os yw'r dreth sydd arnoch yn fwy na £3,000, neu os byddai'n well gennych dalu'n uniongyrchol am unrhyw dreth o dan £3,000, bydd angen i chi dalu erbyn 31 Ionawr er mwyn osgoi gorfod talu llog ar y dreth sydd arnoch.

Os bydd eich Ffurflen Dreth bapur yn dod i law ar ôl 30 Rhagfyr, ni allwn warantu y byddwn yn eich hysbysu ynghylch faint o dreth sy'n ddyledus erbyn 31 Ionawr. Bydd yn rhaid i chi amcangyfrif faint o dreth sydd arnoch, a thalu'r swm hwnnw erbyn 31 Ionawr, er mwyn osgoi gorfod talu llog.

Bydd CThEF yn codi llog a chosbau ar gyfer Ffurflenni Treth a thaliadau a ddaw i law yn hwyr.

## Y cysylltiad â Chyfraniadau Yswiriant Gwladol

Bydd angen i chi dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 ar yr holl enillion o'ch cyflogaeth fel AS. Caiff hyn ei ddidynnu o'ch cyflog drwy gyflogres IPSA.

Bydd unrhyw fuddiannau a gewch sy'n gysylltiedig â chyflogaeth yn agored i gyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1A (cyflogwr yn unig).

**Yr eithriadau i hyn yw pan fo'r canlynol yn berthnasol:**

- mae eithriad yn bodoli, fel arfer am draul a godir wrth gyflawni dyletswyddau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'ch cyflogaeth
- rydych yn gwneud taliad penodol ac amlwg o dreuliau a godir wrth gyflawni'ch cyflogaeth, neu gyfraniad tuag ato.

Os oes gennych ail swydd gyda chyflogwr gwahanol, gan gynnwys cyflogaeth fel Gweinidog gan adran o'r llywodraeth, efallai y byddwch yn gymwys i wneud cais i dalu CYG Dosbarth 1 ar gyfradd is ar gyfer eich ail swydd. Gweler adran 6 am ragor o fanylion ar sut i wneud cais am hyn.

# 3 Buddiannau trethadwy o'ch swydd

O dan ddeddfwriaeth trethi, mae CThEF yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl dreuliau trethadwy gael eu cynnwys ar y gyflogres a'u trethu gan yr Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol (IPSA).

Mae IPSA nawr yn rhoi'r treuliau trethadwy hyn drwy'ch cyflogres fisol.

Bydd IPSA yn ad-dalu'ch costau busnes i chi fel yr arfer. **Ni ddylech gynnwys treuliau a delir gan IPSA yn eich Ffurflen Dreth Hunanasesiad fel traul y gellir ei didynnu.** Bydd treth yn cael ei didynnu erbyn hyn o unrhyw dreuliau trethadwy, ochr yn ochr â'ch cyflog, yn hytrach na'i chynnwys ar eich P11D diwedd blwyddyn.

Bydd IPSA yn gallu rhoi datganiad treuliau trethadwy i chi a fydd yn dangos yr hawliadau sydd wedi'u trethu yn y mis hwnnw.

**Gellir dod o hyd i arweiniad pellach ar ddefnyddio IPSA Ar-lein yma: www.ipsaonline.org.uk/guidance/getting-started-in-ipsa-online**

Gall Gweinidogion hefyd gael buddiannau a threuliau heb eu heithrio o'u hadran o'r llywodraeth.

## Treuliau a delir gan IPSA

**Gallwch wneud hawliad i IPSA ar gyfer y canlynol:**

- treuliau llety
- costau staffio
- costau swyddfa
- gwariant ar deithio a chynhaliaeth
- costau amrywiol

**Mae'r rheolau ar gyfer hawlio treuliau ar gael ar wefan IPSA yn www.theipsa.org.uk/publications/the-scheme**

## Treuliau llety

Nid yw'r rhain yn drethadwy.

## Costau staffio

Mae cyflogau staff sy'n cael eu talu gan IPSA ar eich rhan, wedi'u cwmpasu gan yr eithriad.

## Costau swyddfa

Gallwch hawlio didyniad pan godwyd treuliau arnoch yn gyfan gwbl, yn angenrheidiol a dim ond wrth gyflawni'ch dyletswyddau fel AS o arian na chafodd ei ddarparu gan IPSA.

## Taliadau wrth gefn

Mae taliadau wrth gefn yn cwmpasu symiau a ad-dalwyd gan IPSA ar sail eithriadol. Bydd IPSA yn rhoi rhagor o wybodaeth ar gais.

## Treuliau a godwyd a lwfansau cyfalaf

Gallwch ond hawlio am eitemau y byddai'u hangen arnoch fel AS i wneud eich swydd.

Gallwch hefyd hawlio lwfansau cyfalaf ar gyfer y gost o brynu a gwella cyfarpar sydd eu hangen arnoch er mwyn gwneud eich swydd, megis desgiau a chypyrddau cadw ffeiliau. Bydd y math o lwfans cyfalaf a'r swm y gallwch ei hawlio yn dibynnu ar gost yr ased ac amgylchiadau eraill.

Efallai y gallwch hawlio'r lwfansau canlynol:

- Mae'r Lwfans Buddsoddi Blynyddol (LBB) am gyfarpar (ond nid ceir) wedi codi dros dro i hyd at uchafswm o £1,000,000 o 1 Ionawr 2019 i 31 Mawrth 2023.

- Lwfans ar Bapur (LAB). Os yw'r gost o brynu cyfarpar yn fwy na'r uchafswm ar gyfer LBB (£200,000), caiff yr hyn sydd dros ben ei roi mewn cronfa a gallwch hawlio 18% o'r brif gronfa a chario unrhyw swm sy'n weddill ymlaen i'r flwyddyn nesaf
- Lwfans Cronfeydd Bychain (LCB). Os yw cyfanswm gwerth y 'gronfa' yn £1,000 neu'n llai, gallwch hawlio'r swm cyfan fel LCB.

**Ni allwch hawlio lwfansau cyfalaf ar gyfer:**

- cyfarpar TG a ddarparwyd o dan drefniadau Tŷ'r Cyffredin
- eitemau rydych yn prynu ar gyfer, neu i'w defnyddio yn, eich cartref eich hunan
- y gost o brynu car. Bydd IPSA yn talu cyfradd milltiroedd modur.


**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn**
**www.gov.uk/work-out-capital-allowances/rates-and-pools**

Os ydych yn defnyddio'r cyfarpar ar gyfer defnydd busnes a phreifat, bydd yn rhaid i chi ostwng eich hawliad gan y gyfran sy'n ymwneud â'ch defnydd preifat.

## Enghraifft

Mae Mair Smith AS yn creu swyddfa yn ei chartref, gan wario £5,000 ar gyfarpar TG. IPSA Nid yw IPSA yn ad dalu Ms Smith AS am y gost hon. Mae'n defnyddio'r cyfarpar 70% o'r amser ar gyfer ei gwaith a 30% o'r amser at ddefnydd personol, felly bydd yn rhaid iddi ostwng swm y Lwfans Buddsoddi Blynyddol (LBB) gan swm ei defnyddd personol, sef 30%.

Gall Ms Smith AS hawlio £3,500 o LBB (£5,000 llai 30% ar gyfer defnydd preifat).



# 4 Cyfrifoldebau'r cyflogwr

Os ydych yn talu staff yn uniongyrchol, ac nid drwy IPSA, bydd angen i chi ddefnyddio cynllun TWE.

**Mae manylion llawn ar gyflogi staff am y tro cyntaf ar gael yn www.gov.uk/employing-staff**

## Eitemau eraill o ddiddordeb

### Ffioedd

Dylech gadw cofnod o unrhyw ffioedd achlysurol ar gyfer erthyglau papur newydd, llenwi arolygon, cyfweliadau teledu neu radio ac ymrwymiadau siarad sydd yn gysylltiedig â'ch dyletswyddau fel AS, i'w cynnwys ar eich Ffurflen Dreth Hunanasesiad.

### TAW

Bydd unrhyw incwm nad ydych yn ei gael oddi wrth IPSA, neu o gyflogaeth neu swydd arall, yn ffurfio rhan o'ch 'cyflenwadau trethadwy' at ddibenion TAW.

**Mae angen i chi gofrestru ar gyfer TAW os yw'r canlynol yn berthnasol:**

- aeth eich trosiant ar gyfer y 12 mis blaenorol dros y trothwy TAW, sef £85,000 ar hyn o bryd (ar gyfer 2018-19)
- rydych o'r farn y bydd y eich trosiant yn mynd dros y trothwy TAW yn fuan.

Gallwch ddewis cofrestru ar gyfer TAW hyd yn oed os nad oes yn rhaid i chi. **Mae rhagor o fanylion ar gael yn www.gov.uk/vat-registration**

### Ffioedd a gyfrannwyd at elusen

Fe'ch trethir ar unrhyw ffioedd a gewch, hyd yn oed os byddwch yn rhoi'r swm i elusen, neu os byddwch yn gofyn bod y swm y mae gennych hawl iddo yn cael ei dalu i fan arall. Dylech gynnwys y ffioedd a gafwyd ar eich Ffurflen Dreth Hunanasesiad.

Os ydych yn hepgor eich hawl i ffioedd cyn y dylid eu talu, ni fydd y ffioedd yn drethadwy. Er mwyn i'r trefniant ddod i rym, bydd y corff sy'n talu'r ffioedd yn gallu dewis yr elusen i roi'r ffioedd iddi, neu ddewis peidio â'u rhoi o gwbl. Nid oes angen i chi nodi'r manylion ar eich Ffurflen Dreth Hunanasesiad.

Fel arall, mae'n bosibl i chi ddewis rhoi swm sy'n cyfateb i'r ffioedd, drwy Rodd Cymorth. Yn yr achos hwn, bydd yr elusen yn gallu adennill y dreth ar y gyfradd sylfaenol ar y rhodd, a gallwch chi adennill balans y rhyddhad treth sy'n ddyledus.

**Os ydych am ddefnyddio Rhodd Cymorth, trowch at www.gov.uk/government/publications/charities-detailed-guidance-notes**

Gallwch hefyd roi swm sy'n cyfateb i'r ffioedd, i elusen drwy gynllun Rhoi drwy'r Gyflogres a chael rhyddhad treth llawn ar y rhodd. Gall IPSA ddarparu manylion am sut i roi i elusen drwy'i gynllun Rhoi drwy'r Gyflogres.

Sylwer - os nad ydych yn hepgor eich hawl i'r ffioedd, dylech gynnwys y ffioedd fel incwm ar eich Ffurflen Dreth, hyd yn oed os oes swm cyfatebol yn cael ei roi drwy Rodd Cymorth neu Roi drwy'r Gyflogres.

# 5 Treth Enillion Cyfalaf ar fannau preswylio

Mae unrhyw enillion sy'n deillio o waredu'ch unig fan preswylio, neu'ch prif fan preswylio, fel arfer wedi'u heithrio rhag Treth Enillion Cyfalaf os yw'r eiddo wedi bod yn unig fan preswylio neu'n brif fan preswylio i chi drwy gydol eich cyfnod o berchnogaeth. Gelwir yr eithriad hwn yn Rhyddhad Man Preswylio Preifat.

Yr eithriadau nodedig yw pan fo maint unrhyw ardd neu dir (gan gynnwys yr adeiladau) yn fwy na 0.5 hectar, neu pan fo rhan o'r tŷ'n cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl at ddibenion busnes. Pan fo'r eiddo wedi bod yn unig fan preswylio neu'n brif fan preswylio i chi am ran o'r cyfnod o berchnogaeth, rhennir unrhyw ennill ar sail amser, yn dibynnu ar ba mor hir rydych wedi byw yn yr eiddo hwnnw.

## Eich man preswylio

Os ydych yn byw mewn dau dŷ neu fwy, sy'n gartref i chi, gallwch enwebu pa fan preswylio sydd i'w drin fel eich prif fan preswylio am unrhyw gyfnod. Mae'ch dewis yn berthnasol ar gyfer Treth Enillion Cyfalaf yn unig. Mae'n rhaid i'ch enwebiad gael ei wneud cyn pen dwy flynedd o'r dyddiad pan fo gennych gyfuniad o fannau preswylio am y tro cyntaf. Os oes newid yn eich cyfuniad o fannau preswylio, mae cyfnod newydd o ddwy flynedd yn dechrau. Os nad ydych yn enwebu un o'ch cartrefi fel eich prif fan preswylio, caiff y cwestiwn pa un o'r rhain yw'ch prif fan preswylio ei benderfynu ar sail y ffeithiau.

## A all mwy nag un man preswylio fod yn gymwys ar gyfer Rhyddhad Man Preswylio Preifat?

**Mae dwy set o amgylchiadau lle y gallai hyn ddigwydd.**

Yn gyntaf, os ydych wedi defnyddio eiddo fel eich unig fan preswylio neu'ch prif fan preswylio ar ryw adeg yn ystod eich cyfnod o berchnogaeth, efallai y bydd peth amser cyn i chi werthu'r eiddo hwnnw, ac yn ystod y cyfnod hwn bydd yn rhaid i chi roi'r gorau i'w ddefnyddio fel eich prif fan preswylio (er enghraifft, pan fyddwch yn prynu cartref newydd cyn i'r hen un cael ei werthu). I ddarparu ar gyfer y posibilrwydd hwn, caiff y naw mis olaf o berchnogaeth ei drin bob amser fel pe baech wedi'i feddiannu fel eich unig fan preswylio neu'ch prif fan preswylio. Mae'n bosibl y bydd Rhyddhad rhag Treth Enillion Cyfalaf wedyn ar gael ar gyfer y cyfnod gorgyffwrdd ar yr hen eiddo a'r eiddo newydd.

Yn ail, os ydych wedi darparu man preswylio ar gyfer dibynnydd cyn 6 Ebrill 1988, mae'n bosibl eich bod yn gymwys i gael rhyddhad rhag Treth Enillion Cyfalaf ar yr eiddo hwnnw, yn ogystal â'ch eiddo chi'ch hun.

## Rhyddhad ar gyfer pobl briod neu rywun mewn partneriaeth sifil

Os ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil, ac nid ydych wedi'ch gwahanu oddi wrth eich priod neu'ch partner sifil, ac rydych yn berchen ar ddau neu fwy o gartrefi rhyngoch, mae'n rhaid i unrhyw enwebiad gael ei wneud ar y cyd a'i lofnodi gan y ddau ohonoch. Mae gennych hawl i Ryddhad Man Preswylio Preifat ar un cartref rhyngoch yn unig.

**I gael rhagor o wybodaeth am Dreth Enillion Cyfalaf ar fannau preswylio, ewch i** **www.gov.uk/government/publications/private-residence-relief-hs283-self-assessment-helpsheet**

# 6 Gohirio talu Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 ar fwy nag un gyflogaeth

Efallai y bydd unigolion sydd â mwy nag un swydd gyda chyflogwyr gwahanol yn gallu talu cyfradd is o gyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) Dosbarth 1 ar enillion o unrhyw swyddi y tu hwnt i'w prif swydd.

Os ydych yn gymwys, **gallwch wneud cais i CThEF am ddidynnu CYG ar gyfradd is o'ch ail swydd drwy TWE** (proses a elwir yn 'gohirio').

## Pwy sy'n gymwys i gael gohiriad

Bydd gohirio yn effeithio ar Weinidogion, sy'n cael eu cyflogi gan y Senedd fel ASau a chan eu hadran o'r llywodraeth fel Gweinidogion, neu unrhyw AS sydd ag enillion gan gyflogwr arall.

Nid yw unrhyw rôl ychwanegol y telir amdani gan y Senedd, fel gwaith ar bwyllgor dethol neu fel Ysgrifennydd Preifat Seneddol, yn gymwys i gael ei gohirio gan fod y ddwy swydd gyda'r un cyflogwr.

Mae p'un a ydych yn gymwys i ohirio CYG Dosbarth 1 (cyflogai) yn dibynnu ar gyfanswm lefel eich incwm o'ch cyflogaethau ar draws y flwyddyn dreth – gweler **harweiniad ar ohirio** am ragor o wybodaeth.

## Sut i ohirio Yswiriant Gwladol

I ohirio CYG Dosbarth 1, **mae'n rhaid i chi wneud cais i CThEF erbyn 14 Chwefror** cyn diwedd y flwyddyn dreth rydych yn dymuno gohirio CYG ynddi. Gallwch wneud cais ar-lein neu drwy'r post, **gweler y ffurflen ar-lein yma**. Bydd CThEF yn rhoi gwybod i'ch cyflogwr i ddidynnu CYG ar y gyfradd is.

Mae angen i chi wneud cais eto am ohiriad os byddwch yn newid swyddi, gan gynnwys Gweinidogion sy'n symud rhwng adrannau o'r Llywodraeth, i sicrhau eich bod yn talu'r gyfradd gywir ar gyfer eich holl swyddi.

Mae gohirio yn golygu nad oes rhaid i chi aros tan ddiwedd y flwyddyn dreth i wneud cais am ad-daliad CYG.

Os na fyddwch yn gohirio a'ch bod yn gordalu CYG Dosbarth 1 o ganlyniad i hynny, cewch lythyr gan CThEF ar ddiwedd y flwyddyn dreth yn eich gwahodd i hawlio ad-daliad ar-lein.

# 7 Diweddariadau a briffiau digidol

Rydym yn e-bostio bwletin at ASau i roi crynodeb o newyddion a chyhoeddiadau polisi, newidiadau i ddeddfwriaeth ac ymgyngoriadau. Gall eich staff hefyd gofrestru i gael ein briffiau a diweddariadau misol CThEF drwy gysylltu â'n tîm Materion Allanol yn **external.affairs@hmrc.gov.uk**

**Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau, cysylltwch â ni:**

Swyddfa'r Ysgrifenyddion Parhaol: **perm.secs@hmrc.gov.uk**

HM Revenue & Customs

Issued by
HM Revenue and Customs
July 2024 © Crown Copyright 2024